GWANWYN 2021

RHIFYN 2

GOGLEDD POWYS Lles

NORTH POWYS Wellbeing

DIWEDDARIAD

NEWYDDION GAN RAGLEN LLES GOGLEDD POWYS

CROESAWU CYMERADWYAETH ACHOS BUSNES AR GYFER CAMPWS IECHYD A LLES

Mae campws iechyd a lles o'r radd flaenaf yn y Drenewydd wedi cymryd cam arwyddocaol ymlaen yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd Achos Busnes Rhaglen (ABRh) yn gynharach I Lywodraeth Cymru gan Raglen Lles Gogledd Powys oedd yn amlinellu'r buddion o ddod â gwasanaethau iechyd a lles ynghŷd ar un safle drws nesaf I Stryd Y Parc yn y Drenewydd. Cyhoeddodd y Prif Weinidog Mark Drakeford yn y Senedd ar 15 Mawrth ei fod yn cymeradwyo'r achos busnes hwn, gan nodi bod hwn yn garreg filltir bwysig i'r prosiect.

Mae Rhaglen Lles Gogledd Powys yn rhaglen flaenllaw Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys, sy'n cynnwys Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, CMGP a phartneriaid allweddol eraill.

Mae Hayley Thomas, Dirprwy Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn Gyd Swyddog Cyfrifol am y rhaglen Lles Gogledd Powys: "Rydym yn falch iawn fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ein syniadau cynnar am y datblygiad cyffrous ac arloesol yma. Tra rydym wedi bod yn aros am benderfyniad, rydym hefyd wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu achos busnes yr ail gam - yr Achos Strategol Amlinellol - a bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hystyried gan y bwrdd iechyd yn hwyrach ymlaen y mis yma. Os caiff hyn ei gymeradwyo, yna byddwn yn ei gyflwyno I Lywodraeth Cymru."

Ymhlith y cynlluniau cynnar ar gyfer campws Y Drenewydd yw ystyried symud darpariaeth iechyd Y Drenewydd i Ganolfan Ddiagnosteg a Thriniaeth Ranbarthol Wledig, ynghyd â Chanolfan Iechyd a Gofal Integredig (gan gynnwys gofal cymdeithasol a darpariaeth trydydd sector), Academi Iechyd a Gofal, tai â chymorth tymor byr, llyfrgell a gwasanaethau gwybodaeth ynghŷd â lle cymunedol.

Mae darpariaeth ar gyfer nifer bychan o lety ar gyfer myfyrwyr fydd yn mynychu'r academi, rhai sydd newydd

ei recriwtio i swyddi iechyd a gofal yn ogystal ag arbenigwyr iechyd locwm hefyd yn cael ei hystyried. Mae Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Calon y Dderwen hefyd yn cael ei ddatblygu o dan raglen Trawsnewid Ysgolion Cyngor Sir Powys gyda thimau'r ddwy raglen yn gweithio'n agos.

Ali Bulman yw Cyfarwyddwr Gweithredol Cyngor Sir Powys ar gyfer Datblygu Sefydliadol a Phobl, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac sydd hefyd yn Swyddog Cyfrifol am y rhaglen. " Mae hyn yn newyddion arbennig ac rydym yn hynod o falch i gael y gefnogaeth yma gan Lywodraeth Cymru."

"Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod ar gam cynnar ac, yn ddibynnol ar ein Hachos Strategol Amlinellol hefyd yn derbyn cefnogaeth, mae dau gam achos busnes arall y bydd angen inni fynd drwyddynt. Os bydd pob achos busnes yn derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru fodd bynnag, yr amcan yw i agor ar ddiwedd 2026 er disgwylir y bydd ailddatblygiad yr ysgol yn barod yn ystod tymor yr Hydref blaenorol."

Mae cynllun y campws yn rhan o weledigaeth ehangach i wella mynediad at wasanaethau iechyd a lles trwy 'Fodel Gofal a Lles Integredig ym Mhowys' newydd ac arloesol. Amcanion y weledigaeth yma yw sicrhau fod trigolion Powys yn derbyn gofal a lles di-dor cyd gysylltiedig ar yr amser cywir, yn y man cywir sy'n cwrdd â'u hanghenion yn y cartref, y gymuned, neu ledled Powys.

I wybod mwy am y Model Gofal a Lles Integredig ym Mhowys ac am y cynlluniau ar gyfer campws y Drenewydd ewch i Lles Gogledd Powys (powyswellbeing.wales)

RHAGLEN LES GOGLEDD POWYS YN ARIANNU CLINIGAU GOFAL LLYGAID NEWYDD

Mae cleifion gofal llygaid sydd angen sganiau Tomograffeg Cydlyniaeth Optegol yng Ngogledd Powys bellach yn gallu eu cael yn y sir diolch i gyllid oddi wrth Raglen Les Gogledd Powys.
Yn flaenorol, bu'n rhaid i gleifion yng ngogledd y sir deithio i ysbytai cyffredinol dosbarth y tu allan i'r sir i gael mynediad at sganio offthalmig digidol. Erbyn hyn mae clinigau rheolaidd yn cael eu cynnal yn ysbytai Llanidloes a'r Trallwng sy'n cynnig y cyfleuster hwn.

Mae Judith Jamieson yn Uwch Reolwr Nyrsio ar gyfer Datblygu Cleifion Allanol gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: "Yn draddodiadol yn y rhan hon o'r sir byddai angen i'n cleifion gael eu cyfeirio ymlaen i'r Amwythig neu Aberystwyth ar gyfer y sgan diagnostig hwn gan yr Ymgynghorydd Offthalmoleg. Roedd hyn yn arwain at sawl ymweliad â gwahanol safleoedd ysbytai, ac oedi posibl o ran diagnosis a chychwyn cyfundrefnau triniaeth.

Uchelgais Rhaglen Les Gogledd Powys yw trawsnewid gwasanaethau iechyd a lles yn y rhan hon o'r sir. Er ei fod yn datblygu cynlluniau ar gyfer campws iechyd a lles amlasiantaethol yn y Drenewydd, mae hefyd yn cefnogi amrywiaeth o fentrau ar draws Gogledd Powys yn ariannol – fel hwn – a all wneud gwelliannau gwirioneddol yn gyflym. Carys Williams yw Rheolwr Newid Clinigol gyda thîm y rhaglen. Ychwanegodd: "Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno cyfleusterau sganio tebyg ar y campws yn y Drenewydd a ddylai, ar yr amod bod cyllid ar gael, fod ar agor ddiwedd 2026. Yr ydym eisoes yn gweld ffrwyth y buddsoddiad presennol hwn, serch hynny. Eisoes mae dwsinau o gleifion wedi cael eu sganiau Tomograffeg Cydlyniaeth Optegol yn Llanidloes a'r Trallwng. Mae hyn yn rhan bwysig o'n gweledigaeth - darparu cymaint o wasanaethau â phosibl yn ein hysbytai yma yng ngogledd Powys."

Os hoffech gysylltu a'r tîm, cysylltwch â nhw drwy powyswellbeing.north@wales.nhs.uk neu ar y cyfryngau cymdeithasol drwy (Facebook) @llespowys a (Twitter) drwy @llespowys. Fel arall, gallwch ysgrifennu atom yn Rhaglen Les Gogledd Powys, Ystafell 1.7, Tŷ Ladywell, Stryd y Parc, Y Drenewydd, Powys, SY16 1BJ.